

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Ebrill 5ed, 2018 yn Ffestri Capel Pencaenewydd.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Marian Evans (Cadeirydd); Margaret Griffith (Is gadeirydd); William Ifor Hughes; Trefor Wyn Jones; Angela Williams; Tegid Jones; Aled Lloyd Evans; Gareth O Davies; Thomas Prys Jones; Anwen Jones; Sian Angharad Parry a'r Clerc.

1. Croesawyd y Cyngorydd Gareth O Davies, 2 Talafon, Llanystumdwy fel Cyngorydd dros Ward Llanystumdwy ar y Cyngor ac arwyddodd y Datganiad Derbyn Swydd.
2. Ymddiheuriadau. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cyngorwyr Ceri Jones, Sion Aled Jones; Aled Davies a Naomi Jones.
3. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y Cyngor gynhaliwyd ar Fawrth 8fed, 2018.
4. Arwyddwyd cadarnhad taliadau BACS gan y Cadeirydd.
5. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
6. Datgan buddiant personol. Datganwyd buddiant personol gan y Cyngorwyr Marian Evans ac Aled Lloyd Evans yn rhif 8.5 ar y rhaglen waith, Cyngor Gwynedd, ceisiadau cynllunio yn y gymuned, Cais 18/0249/41/MG – cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer codi 15 tŷ preswyl i gynnwys 5 uned fforddiadwy a ganiatawyd yn amlinellol odan C14/0061/41/AM; Madryn Arms, Chwilog, oherwydd rhesymau personol.
7. Cyngor Gwynedd.

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol: Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Ebrill 2018. Derbyniwyd er gwybodaeth y bydd gwaith draeniad am oddeutu 5 diwrnod, Penarth Fawr, Chwilog.

8. Cyngor Gwynedd.

Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned:

1. Cais C18/0203/41/CR – Trosi ac ymestyn adeilad allanol er darparu cyfleusterau priodasau; Talhenbont Hall, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi.
2. Cais C17/0565/41/LL – Cais i godi tŷ deulawr farchnad agored; Tir at Bro Sion Wyn, Chwilog. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990- Apêl o dan ADRAN 78 (1).

PENDERFYNWYD anfon yr ychwanegiad canlynol at y sylwadau roddwyd ar y cais cynllunio i Gyngor Gwynedd ym mis Medi 2017.

Y sylwadau gwreiddiol oedd bod y Cyngor yma wedi gwrthwynebu'r cais ar sail maint y tŷ ac y byddai'n well cael dau dŷ llai i'w gosod. Ail gyflwynwyd y gwrthwynebiad yma. Y sylwadau ychwanegol ydi, ym marn y Cyngor, bod y cais yma yn groes i briod waith Cartrefi Cymunedol Gwynedd sef i ddarparu tai ar osod i'r gymuned leol ac nid ar gyfer y farchnad agored.

Gofynnwyd am gael copi o'r llythyr penderfyniad.

3. Cais C18/0191/41/CR – Codi ail simdde ar yr adeilad; The Old Tollgate, Chwilog. Cefnogwyd.

4. Cais C18/0194/41/LL – Codi ail simdde ar yr adeilad; The Old Tollgate, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi.

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

5. Cais 18/0249/41/MG – Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer codi 15 tŷ preswyl i gynnwys 5 uned fforddiadwy a ganiatawyd yn amlinellol o dan C14/0061/41/AM; Madryn Arms, Chwilog.

Ymneilltuodd y Cynghorwyr Marian Evans ac Aled Lloyd Evans a chyda'r Is gadeirydd, y Cynghorydd Margaret Griffith yn y gadair, penderfynwyd na dim gwrthwynebiad yw sylw'r Cyngor yma.

Daeth y Cynghorwyr Marian Evans ac Aled Lloyd Evans nôl mewn i'r cyfarfod a chyda'r Cadeirydd nôl yn y gadair aethpwyd ymlaen gyda'r cyfarfod.

9. Mabwysiadwyd a llofnodwyd Rheolau Sefydlog a Pholisiau'r Cyngor. Bydd copiau yn cael eu hanfon i'r Cynghorwyr drwy e bost a chopiau Cymraeg a Saesneg yn cael eu rhoi ar safle we'r Cyngor.

10. Lwfansau Cynghorwyr Cymuned a Thref 2018-19; enghraifft o ffurflen. Derbyniwyd y ffurflen fel un y gellid ei haddasu i ddibenion y Cyngor yma.

11. Un Llais Cymru

- a. Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Mae'n anodd i Un Llais Cymru wneud unrhyw beth pendant gan nad yw'r ddeddfwriaeth wedi cael ei chymeradwyo eto. Penderfynwyd dal arni ar hyn o bryd. Bydd y Clerc yn mynd i gyfarfod yng Nghaernarfon drefnwyd gan yr SLCC ynghylch hyn ar Ebrill 19eg.
- b. Polisi Cwynion. Derbyniwyd yr enghreifftiau o bolisiau a gellir gwneud defnydd ohonynt pan ddaw cyfle.
- c. Cynhadledd ar y cyd gyda'r SLCC; Llandrindod, Mai 16eg, 2018. Doedd neb ar gael i fynd i'r gynhadledd hon.

12. **Materion yn y gymuned.**

Llanarmon

Llanystumdwy –

Rhoslan /Ynys

Chwilog

Pencaenewydd/Sardis

Mater gan y Cynghorwyr Angela Williams a William Ifor Hughes.

Mae dal drafferthion dŵr yng nghyffiniau Tyddyn Gwyn/Coed Cae Du. Mae'r Clerc wedi bod mewn cysylltiad gydag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd unwaith yn rhagor ynghylch hyn. Derbyniwyd.

Llangybi

Materion gan y Cynghorydd Thomas Prys Jones. Roedd y Cynghorydd Thomas Prys wedi gorfod gadael y cyfarfod erbyn hyn ond deallwyd mai'r drwg yn y caws oedd tyllau yn y ffyrdd ar y ffordd rhwng Pont Tanrallt a Phentyrch Uchaf ac yn rhan uchaf Lôn Rhosgo cyn y groesfordd am Brychyni mewn cyflwr drwg iawn mewn sawl lle ac yn beryglus ac roedd lluniau i gadarnhau hynny. Penderfynwyd llythyru gydag Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

13. Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2018 ymlaen.

- a. y llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
- b. y llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
- c. Y llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
- ch. Y llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
- d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
- dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.

Penderfynwyd gofyn am brisiau am y gwaith i Atkins Groundworks Ltd., Llanarmon; Mr Clifford Hughes, Llangybi; Criccieth Cleaning Ltd., Criccieth; Trefn, Llanystumdwy a Mr Emyr Jones, Llangybi; y Clerc i wneud y trefniadau.

14. Cadw safle bedd D Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor. Penderfynwyd gofyn i Mr Gareth Jones, Caeathro wneud y gwaith.

15. Cytundeb torri Cae Chwarae Llangybi am y tair blynedd nesaf. Penderfynwyd gofyn am brisiau am wneud y gwaith i Atkin Groundworks Ltd., Llanarmon, Mr Clifford Hughes, Llangybi a Mr Emyr Jones, Llangybi, y Clerc i wneud y trefniadau.

16. Gohebiaeth oddi wrth Cartrefi Cymunedol Gwynedd ynghylch wal maes parcio Llanystumdwy ac ymyl y ffordd rhwng Bod Alaw a thai Groesffordd yn Chwilog. Bydd wal y maes parcio yn cael ei thrin gynted â phosib ac nid Cartrefi Cymunedol Gwynedd sydd berchen y tir dan sylw yn Chwilog. Derbyniwyd.

17. Cyfarfod Cyhoeddus i drafod ffordd ymlaen i achub ein clybiau ieuenctid, Ebrill 7fed, 10yb, Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth. Derbyniwyd er gwybodaeth.

Materion Ariannol

18. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Yn ôl ei arfer rhoddwyd adroddiad lawn o'r union sefyllfa ariannol, yn cael ei chefnogi gan adroddiadau banc cyfredol. Does dim peryg i'r Cyngor fynd i ddyled. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

19. Trefniadau ar gyfer Archwiliad Ariannol Mewnol y Cyngor. Bydd angen cael y cyfrifon yn barod erbyn y cyfarfod blynyddol ar Fai 3ydd. Deallir mai tua £125- + TAW yn ddibynnol ar faint o waith sydd i'w gyflawni, fydd y tâl.

20. Anfonebau angen eu talu:

1. Aelodaeth Un Llais Cymru am y flwyddyn 2018/19; £283-; taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

2. GL Jones Playgrounds am eu gwaith yng Nghae Chwarae Llangybi; mae'r anfoneb yma gryn dipyn yn uwch na'r pris gwreiddiol oherwydd bu rhaid gwneud gwaith ychwanegol; £2,424- yn cynnwys TAW, taliad BACS. (y pris gwreiddiol oedd £1,965.60c yn cynnwys TAW). Penderfynwyd ei dalu.

3. Neuadd Llanystumdwy, taliad am WIFI i'r neuadd 1 Ionawr 2018 – 28 Chwefror 2018; £65.87c taliad BACS o'r Cyfrif Budd Cymunedol. Penderfynwyd ei dalu.

4. Delwedd Ltd., taliad am safle we'r Cyngor, costau lletya blynyddol a chynhaliadau blynyddol; £462.47c yn cynnwys TAW, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

21. Cyflog y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol Ebrill 2018 ymlaen.

Cyflog y Clerc; o Ebrill 1af, 2018, symud i fyny ar y raddfa o SCP 21 i SCP 22 sef £10.739c yr awr x 30 awr y mis x 12 mis = £3,866.04c y flwyddyn. Derbyniwyd.

It is possible to get an English translation of any minute; contact the Clerk.